# Ffos Mariana

Mae myfyriwr ifanc, sy'n astudio'r Cyfryngau yn y brifysgol yn ysgrifennu llythyr at gwmnïau teledu yng Nghymru. Dyma'r drafft cyntaf. Mae angen ei gywiro gan fod ynddo nifer o gamgymeriadau a bylchau.

Yr Hendre
Ffordd y Môr
Llanaber

31 Ebrill

……………………..
……………………..
……………………..
……………………..

Annwyl Syr / Madam

Ysgrifennaf atoch i ofyn tybed a fyddai gan eich cwmni ddiddordeb mewn creu rhaglen gyffrous am daith arbennig i waelod y môr.

Nid sôn ydw i am raglen gyffredin a fydd yn edrych ar y pysgod, y creaduriaid a'r planigion sy'n byw ar wely'r môr. Sôn ydw i am daith hynod o gyffrous - a pheryglus iawn - i'r man dyfnaf yn y môr, sef Ffos Mariana neu'r *Mariana Trench* yn y Mor Tawel, ger japan.

Mae rhai o adrannau'r brifysgol wedi bod yn gweithio ar gerbyd arbennig sy'n gallu teithio i ddyfnder o 11,033 metr (36,201 troed), sef dyfnder Ffos Mariana.

Fodd bynnag, cyn medru trefnu taith i waelod y môr, rhaid cael nawdd i dalu am y fenter. Petaech chi, fel cwmni teledu, yn fodlon ein noddi ni, yna gallech chi greu nifer o raglenni am y daith, e.e. rhaglen yn sôn am adeiladu'r cerbyd arbennig, rhaglen am y bobl fydd yn teithio ynddo a rhaglen sy'n rhoi gwybdoaeth am Ffos Mariana. Byddai'n bosibl cynnwys nifer o'ch camerâu a'ch offer yn y cerbyd arbennig er mwyn ffilmio'r daith ei hun. Byddai hyn yn gyfle gwych i ddangos beth sydd ar wely'r môr.

Dw i'n siwr y byddwch chi'n cytuno y byddai'r rhaglen hon yn torri tir newydd ar S4C a gobeithio'n fawr y byddwch yn gallu ein helpu.

Edrychais ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir

Ceri Williams